# TASG 1

**(Estynnol, sbardun 1)**

**Gwaith i unigolion**

**Bwyd Bob Evans**

1. a.) Ewch i http://www.bobevans.com/Menu/Category/47/Family-Size-Meals ac oddi yno cliciwch ar y gwahanol ddolenni sy'n eich arwain chi at brydau bwyd ar gyfer y teulu.

**Gwaith pâr**

b.) Dewiswch eich hoff bryd bwyd o'r fwydlen ac eglurwch wrth eich partner pam rydych chi wedi dewis y bwyd yma.

**Gwaith i unigolion**

2. Beth yw ystyr *diner*?

   Chwiliwch am ddiffiniad o'r gair *diner* (y lle nid y person).

___________________________________________________________________

Chwiliwch am luniau o *diners* ar y we.
Argraffwch un o'r lluniau.

**Gwaith pâr**

Heb ddangos y llun i'ch partner, disgrifiwch y lle i'ch partner.

Yna, gwrandewch ar eich partner yn disgrifio'i lun.

Sut mae'r lluniau'n debyg?

Sut mae'r lluniau'n wahanol?

Edrychwch ar y ddau lun a chymharwch nhw.

**Gwaith i unigolion**

3. Rydych chi'n mynd i agor eich *diner* eich hun.

   a. Meddyliwch am enw da i'r *diner*.

___________________________________________________________

   b. Cynlluniwch fwydlen ar gyfer y *diner*.
   Yn ogystal â chynnwys enwau'r prydau bwyd, ysgrifennwch rywbeth am y bwyd, e.e. gallech chi egluro pa fwydydd sydd ym mhob pryd. Triwch gynnwys cymaint o fwyd iach â phosib ar eich bwydlen.

   c. Rhaid cynnwys y pris ar gyfer pob eitem mewn doleri, ond cyn gwneud hynny, byddai'n werth i chi chwilio ar y we i weld faint yw gwerth doler.

___________________________________________________________________

___________________________________________________________________

___________________________________________________________________

___________________________________________________________________

___________________________________________________________________

___________________________________________________________________

___________________________________________________________________

**Gwaith pâr:**

4. Rhowch eich bwydlen i'ch partner chi.

   a. Beth yw barn eich partner chi am y bwyd?

___________________________________________________________________

___________________________________________________________________

___________________________________________________________________

   b. Beth yw barn eich partner chi am y prisiau?

___________________________________________________________________

___________________________________________________________________

___________________________________________________________________